

TRFENU CLWB GWYDDDBWYLL YN YR YSGOL

RHAGAIR

Mae'r llyfryn hwn ar gael fel copi caled a hefyd gellir ei ddadlwytho oddi ar wefan Undeb Gwyddbwyll Cymru (gweler Atodiad 2). Mae'r llyfryn ar gael hefyd yn Saesneg.

Mae Undeb Gwyddbwyll Cymru yn dymuno rhoi diolch i *Chess Scotland* am ganiatâd i seilio llawer o'r deunydd yn y llyfryn hwn ar y cyhoeddiad a luniwyd gan *Chess Scotland*, sef *How to Organise a School Chess Club*, a hefyd am ganiatâd i ddsbarthu'r nodiadau i athrawon a'r ymarferion a grybwyllir ar dudalen 5.

CYFLWYNIAD

Pam gwyddbwyll?

Mae gwyddbwyll wedi swyno pobl dros y byd i gyd am fwy na mileniwm ac yn parhau felly. Mae hi wedi esgor ar lenyddiaeth helaeth – cyhoeddir miloedd o lyfrau am wyddbwyll bob blwyddyn. Mae'r rhai sydd wedi cael cyflwyniad i wyddbwyll pan oeddynt yn ifanc yn magu blas ar un o'r diddordebau prin y gellir i'w harfer, yn barhaol neu gyda seibiau, ar hyd eu hoes. Dysgwyd y gêm gan bob un bron o oedolion sy'n wyddbwyllwyr brwd pan oeddynt yn ifanc.

Yn ôl gwaith ymchwil mae chwarae gwyddbwyll, yn ogystal â bod yn gyffrous iawn, yn:

- gwella sgiliau cyfathrebu
- gwella'r gallu i wneud tasgau dirnadol cymhleth
- dysgu gwerth gwaith caled, canolbwyntio ac ymroddiad
- cynnig maes deallusol a chystadleuol sydd yn werthfawr
- rhoi teimlad o lwyddiant deallusol
- cynnig i lawer o bobl ifanc eu cyfle cyntaf i ddefnyddio eu deallusrwydd mewn modd cyffrous, buddiol a pharhaol
- gadael i ferched gystadlu â bechgyn mewn maes sydd yn gymdeithasol dderbyniol ac anfygythiol
- gadael i blant anabl gystadlu ag eraill.

Mae pob un o'r gosodiadau uchod yn ddadl rymus dros gynnal clwb gwyddbwyll. Peidiwch â digalonni os nad ydych yn wyddbwyllwr da nac hyd yn oed yn wyddbwyllwr o gwbl. Mae llu o athrawon yn y gorffennol wedi'u rhwystro rhag cychwyn clwb gwyddbwyll yn yr ysgol oherwydd na allent hwy eu hunain chwarae gwyddbwyll. Mae profiad llawer o glybiau llwyddiannus wedi dangos nad oes raid i hyn fod yn faen tramgwydd (gweler tudalen 5).

TREFNU GWYDDBWYLL MEWN YSGOLION

Bob amser, nodweddion yr oedolyn wrth y llyw fydd y prif ffactor. Brwdfrydedd, amynedd a thact yr unigolyn hwn sy'n gorchfygu anawsterau a all ymddangos yn ormod. Mae'r nodweddion hon yn drech na meistrolaeth bersonol ar y gêm o ran eu gwerth i'r clwb gwyddbwyll.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig gwybodaeth gefndirol a chyffredinol ynglŷn â rhedeg clwb gwyddbwyll a hefyd yn traethu'r gofynion ar gyfer cyfarpar sylfaenol, trefniadau a chystadlaethau. Mae'r llyfryn yn adlewyrchu profiad llawer o unigolion wrth drefnu clybiau dros amser maith ond eto rhaid pwysleisio mai canllawiau yn unig a gynigir. Diwygiwch ar bob cyfrif ein cyngor a'n hawgrymiadau trwy gymryd i ystyriaeth y manteision a'r anawsterau neilltuol sydd yn perthyn i'ch ysgol eich hunain. Dangoswn un ffordd, ond nid yr unig ffordd yn sicr, i sefydlu clwb gwyddbwyll llwyddiannus yn yr ysgol.

CYCHWYN CLWB

Caniatâd

Rhaid ichi gael caniatâd gan y prifathro. Os cewch gefnogaeth frwdfrydig, gorau oll. Rhestrir rhai o fanteision gwyddbwyll yn y cyflwyniad i'r llyfryn hwn ond dibynna'r dadleuon neilltuol sydd yn argyhoeddi ar yr unigolyn ac ar yr amgylchiadau lleol y gwyddoch chi amdanynt yn well na ninnau.

Ystafell

Yn ddelfrydol, fe ddylai'r ystafell lle y bydd y clwb gwyddbwyll yn cyfarfod fod yn dawel, golau a helaeth. Mae angen arnoch chi symud o gwmpas heb drafferthu'r chwaraewyr. Mae byrddau'n well na desgiau'r ysgol am eu bod yn gadael i chwaraewyr eistedd yn gyfforddus gyferbyn â'i gilydd. Mae llyfrgell yr ysgol yn addas iawn yn aml ac, os bydd y llyfrgellydd yn barod i gydweithredu, gallwch arddangos detholiad o'r llyfrau lu sy'n gymwys i wyddbwyllwyr ifainc.

Offer

Mae cychwyn clwb gwyddbwyll yn costio ychydig iawn. Efallai y gellir dibynnu yn y cyfnod cyntaf ar setiau y daw'r disgyblion â hwy. Cewch eich synnu gan nifer y setiau sydd yn gorwedd gartref heb eu defnyddio ers iddynt gael eu prynu. Ond yn aml maent yn anfoddhaol oherwydd eu bychander neu eu dyluniad rhyfedd. Gellir prynu tua dwsin o setiau plastig safonol (patrwm *Staunton* a maint y brenhinoedd tua 9cm) a byrddau plastig hyblyg (ond mae'n well eu cadw'n fflat) am tua £100. Nid oes angen mwy na setiau a byrddau ar y dechrau. Yn nes ymlaen, efallai y bydd angen taflenni sgorio (er mwyn cofnodi'r symudiadau mewn gêm) a chlociau gwyddbwyll (teclyn i fesur amser meddwl y ddau chwaraewr, pan ddaw ei dro ef, neu'i thro hi, i symud, ar wahân i'w gilydd). Hwyrach y bydd angen clociau ar gyfer rhai gornestau, er enghraifft rhwng ysgolion. Mae clociau gwyddbwyll yn eithaf drud. £20 a £30 yw cost cloc traddodiadol a rhaid talu £50 a £60 am gloc digidol modern.

TREFNU GWYDDDBWYLL MEWN YSGOLION

Cyflenwyr gorau offer gwyddbwyll yw'r arbenigwyr y mae llawer ohonynt yn cynnig telerau arbennig i ysgolion. Rhestrir rhai ffynonellau posibl yn Atodiad 2. Mae ganddynt i gyd wefannau. Gall yr arian cychwynol ddod allan o gronfeydd yr ysgol, cymdeithas Rhieni-Athrawon neu o ganlyniad i ymdrechion codi arian gan aelodau'r clwb. At hynny, mae gan Undeb Gwyddbwyll Cymru ychydig o setiau a byrddau y gall clybiau newydd gael eu benthg. Cysylltwch â Kevin Staveley (gweler Atodiad 2) a all hefyd helpu, efallai, o ran benthgca clociau gwyddbwyll.

Aelodau

Mae cyfarfodydd cychwynol clwb newydd yn bwysig iawn a rhaid iddynt gael eu cynllunio yn ofalus ymlaen llaw. Dylech gael gwybod faint o ddisgyblion sy'n debyg o fynychu'r clwb a chael gafael ar ddigon o offer i ymdopi â'r nifer disgwylidig. Yn amlwg, os daw trigain ac os bydd pum set yn unig ar gael, fe fydd llawer o ddarpar aelodau yn cael eu siomi ac o bosib ni fyddant yn dod yn ôl. Hyd yn oed os bydd digon o setiau gennych, bydd y niferoedd cymharol o ddisgyblion a all chwarae ac o ddechreuwr yn effeithio ar eich cynlluniau; mae angen paratoi ar gyfer anghenion gwahanol y ddau grŵp.

Yn gyntaf, fe ddylech gymryd i ystyriaeth fod y rhan fwyaf o blant o dan tua saith neu wyth oed yn cael anawsterau wrth ddysgu gwyddbwyll. Ar y llaw arall, os cyfyngir aelodaeth y clwb gwyddbwyll mewn ysgol gynradd i garfan y flwyddyn olaf, collwch eich aelodau i gyd ar ddiwedd y flwyddyn academaidd a byddwch yn ailddechrau o'r cychwyn cyntaf y flwyddyn wedyn. Am hynny, dylech gynnig yr hawl i ymaelodi i ddwy garfan flynyddol o leiaf. Mewn ysgol uwchradd, os cyfyngir aelodaeth i ddisgyblion iau, yr ydych yn hybu'r syniad mai 'stwyff i blant bach' yw gwyddbwyll sy'n anaddas i ddisgyblion hŷn.

Os hoffech drafod cychwyn clwb gwyddbwyll ymhellach cyn mynd ati, bydd pob un o bobl Undeb Gwyddbwyll Cymru a nodir yn Atodiad 2 yn fodlon iawn i siarad â chi.

RHEDEG CLWB

Adeg Cyfarfodydd

Cyn agor y clwb fe ddylech chi feddwl am adegau'r cyfarfodydd a dewis y diwrnod(au) gorau. Mae manteision ac anfanteision i amser cinio ar yr un llaw ac i'r cyfnod yn syth ar ôl diwrnod ysgol ar y llaw arall. Po amlaf y bydd y clwb yn cyfarfod, mwyaf oll fydd y profiad a gaiff yr aelodau, ac mae hynny o blaid cyfarfodydd amser cinio. Ar y llaw arall, fel y bydd safon y chwaraewyr yn gwella, gallant gael anhawster wrth orffen gêm ymhen, dyweder, yr hanner awr yn ystod amser cinio.

Cyfranogiad y disgyblion

TREFNU GWYDDBWYLL MEWN YSGOLION

Yn enwedig mewn ysgol uwchradd gellir rhoi llawer o'r gwaith trefnu i bwyllgor disgyblion. Gall disgyblion addas ofalu am y setiau, cofnodi'r canlyniadau a rhedeg gweithgareddau i godi arian dan oruchwyliaeth barhaol yr athro. Bydd y lles sy'n deillio o hynny yn amlwg i bob athro.

Hyfforddiant

Bydd yr aelodau wedi ymuno â'r clwb er mwyn chwarae gwyddbwyll yn hytrach na chael gwersi. Os rhoir hyfforddiant iddynt rhaid ystyried yn ofalus ei natur, ei amseriad a'i faint a hynny yn cael eu dylanwadu yn fawr iawn gan amgylchiadau'r clwb unigol. Ond, os bydd nifer sylweddol o ddechreuwr, rhaid dysgu'r elfennau sylfaenol iddynt. Os gellir cyflawni hyn yn rhan o faes llafur yr ysgol – amlinellir y dadleuon cryf drosto ar ddechrau'r llyfryn hwn – gorau oll.

Mae adnoddau ar gael ar gyfer dosbarthiadau cychwynnol, megis y set o nodiadau i athrawon a'r ymarferion a ddarparwyd gan *Chess Scotland*, sydd i gyd yn ardderchog. Gellir cael copi ohonynt ar gwyno-ddisg gan Undeb Gwyddbwyll Cymru. Efallai y gellir gwahodd gwyddbwyllwr profiadol i ddod i'r ysgol a rhoi gwersi dan oruchwyliaeth yr athro. Yn hyn o beth hefyd gall Undeb Gwyddbwyll Cymru roi cymorth.

Wedyn mae llawer o glybiau yn gadael i'w haelodau eu dysgu eu hunain trwy'r profiad o chwarae ac yn cyfyngu hyfforddiant i sylwadau achlysurol ar y gêmau y digwydd i'r hyfforddwr eu gweld. Ond bydd rhywbeth y tu hwnt i hyn yn arwain at chwaraewyr gwell os y'i cynllunnir yn ofalus. Os bydd yr adnoddau ar gael gellir cynnig ar ddechrau pob sesiwn sgwrs fach, nad yw'n hwy na deng munud, ar ryw agwedd ar y gêm.

Mae byrddau mawr 'arddangos' ar gael (a grogir ar wal neu wyneb unionsyth arall) am cyn lleied â £40.

Unwaith y caiff chwaraewyr wybod sut i gofnodi symudiadau eu gemau, gall sylwadau arnynt gan chwaraewr medrus ar ôl y gêm fod yn llesol. Mae meddalwedd wyddbwyll ar gael sy'n cynnig nodiadau ar gemau gan ddangos camgymeriadau ac awgrymu gwelliannau.

Trwy gael Tystysgrif Rhagoriaeth (lefel efydd) Ffederasiwn Gwyddbwyll Lloegr, bydd chwaraewyr yn dangos iddynt feistroli rheolau'r gêm. Gallant roi cynnig arni ar ôl y tymor cyntaf.

Cystadlaethau

Ni ddymuna rhai aelodau chwarae ond yn erbyn eu ffrindiau eu hunain neu'n erbyn chwaraewyr y credant y gallant eu maeddu'n hawdd. Ond bydd y rhan fwyaf yn croesawu rhyw fath o gystadlu trefnedig. Felly cynigiwch hynny mor gynnar ag y gallwch. Amlinellir amryw fathau o gystadleuaeth yn yr adran nesaf. Peidiwch â gwneud y camgymeriad o drefnu gormod ohonynt, o ddechrau'n rhy gynnar neu o gynnig rhai sy'n para'n rhy hir. Pa fath (neu fathau) bynnag a dewiswch, sicrhewch y gwyddoch sut i'w rhedeg cyn ichi ddechrau.

TREFNU GWYDDDBWYLL MEWN YSGOLION

CYSTADLAETHAU

Ysgol (Ladder)

Fel y gystadleuaeth fwyaf anffurfiol, mae gan yr ysgol lawer mantais, yn eu plith y gellir ei rhedeg ar gyfer cymaint, neu cyn lleied, ag y dymunir ac nad oes angen dod â'r cystadleuwyr oll at ei gilydd yr un pryd.

Mae'r ysgol ei hun yn rhyw fath o declyn sydd yn dal enwau'r chwaraewyr mewn trefn ac mewn modd a galluoga'r drefn i gael ei newid yn ddidrafferth. Gall fod yn strided o bren haenog gyda bachau y gellir hongian enwau'r disgyblion arno. Gellir gwneud math symlach o ysgol, ond hollol foddhaol, allan o ddarn o gerdyn (maint A4) wedi ei blygu'n hanner a slotiau ar gyfer yr enwau wedi'u torri bob un a hanner centimetr.

I ddechrau, gosodir enwau'r chwaraewyr ar hap ar yr ysgol a chaniateir i chwaraewyr herio'r rhai sy'n uwch eu pennau. Os ennill yr heriwr, symuda uwchben y chwaraewr a heriwyd a'r rhai uwch, gan gynnwys yr un a gollodd, yn symud un cam i lawr. Os cyll yr heriwr, nid oes newid.

Gellir dod â chyfyngiadau i mewn yn ôl yr angen – er enghraifft na all chwaraewyr ond herio eraill sydd heb fod yn fwy na phedwar cam uwch eu pennau, na allant herio'r un gwrthwynebwr ond unwaith mewn cyfnod penodol, na allant wrthod her, ac yn y blaen. Bydd angen dull sefydlog o adrodd canlyniadau a chyfarwyddiadau eglur ynglŷn â phwy a gaiff newid safleoedd enwau ar yr ysgol.

Mae cystadleuaeth ysgol yn hawdd i'w rhedeg; nid yw'n dibynnu ar bresenoldeb chwaraewyr neilltuol ac mae'n hyblyg iawn. Gellir ei chadw yn syml iawn neu'i gwneud yn fwy cymhleth er mwyn gweddu i ofynion neilltuol y clwb. Fwy na thebyg, hon yw'r math gorau o gystadleuaeth er mwyn cyflwyno gwyddbwyll gystadleuol i aelodau clwb newydd.

Pawb yn chwarae pawb (system gynghrair)

O dan y drefn hon mae pob chwaraewr yn chwarae pob un arall unwaith o leiaf. Mae nifer o rowndiau sydd eu hangen yn un llai na nifer o chwaraewyr. Os oes rhagor na deg cystadleuwr mae'n fwy hylaw eu rhannu'n ddwy adran (neu ragor). Mae pump neu chwech yn nifer ddelfrydol ar gyfer pob adran.

Os bwriedir dod o hyd i bencampwr y clwb, rhaid trefnu, wrth gwrs, ryw fath o ail gystadleuaeth. Gall y ddau enillwr chwarae yn erbyn ei gilydd neu, er enghraifft, fe all yr enillwr a'r ail chwaraewr ym mhob adran chwarae yn erbyn ei gilydd mewn twrnaint terfynol o'r un fath.

O ffurfio'r adrannau dylid cymryd camau i sicrhau nad yw'r chwaraewyr gorau i gyd yn yr un adran; os felly, byddai hwythau yn chwarae megis y rownd derfynol cyn cyrraedd yr ail gystadleuaeth. Ar y llaw arall, os y prif fwriad yw rhoi'r cyfle o fwynhau a gwella eu gwyddbwyll i ddisgyblion, gan osgoi gemau unochrog iawn, mae angen chwaraewyr o'r un cryfder fwy neu lai mewn pob adran.

TREFNU GWYDDBWYLL MEWN YSGOLION

Knock-out

Mae gan hynny'r fantais o fod yn drefn gyfarwydd a hawdd i'w deall; mae'r ffordd symlaf o bennu pencampwr y clwb. Gellir trefnu cystadleuaeth atodol i'r rhai a gollodd eu lle yn gynnar yn y brif gystadleuaeth.

Ond gall anawsterau godi oni fydd chwaraewyr yn gorffen eu gemau erbyn y dyddiad penodedig neu os tyn rhai allan hanner ffordd trwodd. Gellir lliniaru'r problemau hyn trwy osod rheolau clir sy'n datgan amserlen sefydlog ar gyfer bob gêm a'r canlyniadau o fethu ei chyflawni yn brydlon.

Os yw cryfder y disgyblion yn glir, gellir osgoi gemau cynnar rhwng y chwaraewyr gorau trwy benodi detholion.

Y System Swistirol

Cynhelir y mathau o gystadleuaeth a grybwyllwyd uchod mewn llawer camp, ond prin y gwelir y System Swistirol y tu allan i wyddbwyll; hyhi yw'r math mwyaf poblogaidd o dwrnamaint gwyddbwyll. Mae ganddi fanteision o'i chymharu â'r cystadlaethau a drafodir uchod. Gall esgor ar enillydd yn gyflym allan o nifer fawr o gystadleuwyr. Mae pob un yn cymryd rhan ym mhob rownd, os enillodd ei gêm flaenorol neu beidio, yn chwarae yn erbyn gwrthwynebwr gwahanol ym mhob rownd ac yn buan herio chwaraewyr tua'r un cryfder ag yntau/hithau ei hun.

Yr egwyddor sylfaenol yw bod cystadleuwyr, a'r un nifer o bwyntiau ganddynt (rhoddir fel arfer un am ennill a hanner am gael gêm gyfartal), yn chwarae yn erbyn ei gilydd ym mhob rownd wedi'r un cyntaf. Ar ôl ychydig o rowndiau fe fydd chwaraewyr o gryfder tebyg chwarae yn erbyn ei gilydd. Mae twrnamaint pum rownd yn ddiagon i ddioli 32 chwaraewr ac un chwe rownd ar gyfer 64 chwaraewr,

Gellir cynnal twrnamaint o dan y System Swistirol gyda graddfeydd gwahanol o gymhlethdod ond er amcanion clwb gwyddbwyll yn yr ysgol, nid oes raid ond nodi'r pwyntiau canlynol:

- gosodir y chwaraewyr yn erbyn ei gilydd yn y rownd cyntaf ar hap;
- wedyn ceisir sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod y rhai ar yr un sgôr yn chwarae ei gilydd;
- ar ôl yr ail rownd mae'n haws pennu gwrthwynebwyr i chwaraewyr gyda'r sgoriau gorau a'r sgoriau gwaethaf cyn troi at y chwaraewyr yn y canol;
- oni ellir gosod cystadleuwr yn erbyn rhywun â'r un sgôr, gosodwch ef yn erbyn rhywun â sgôr sydd mor agos â phosib iddo; er enghraifft fe ddylai rhywun sydd ar y blaen ar ei ben ei hun, a thri phwynt allan o dair gêm ganddo, gael ei osod yn erbyn rhywun â 2½ neu, os nad oes neb â 2½, yn erbyn rhywun â dau o bwyntiau;
- gadewir i'r chwaraewyr benderfynu pwy fydd yn chwarae â'r darnau gwynion trwy daflu ceiniog;
- cadwch gofnodion (yn enwedig i sicrhau nad yw chwaraewr yn cael ei baru yn erbyn chwaraewr arall fwy nag unwaith) trwy baratoi cerdyn

TREFNU GWYDDDBWYLL MEWN YSGOLION

unigol i bob cystadleuwr ac arddangoswch y canlyniadau, fesul rownd, ar siart wal. Gweler enghreifftiau yn Atodiad 3.

YMARWEDDIAD

Cyffredinol

Yn ystod gêm ni ddylai chwaraewyr:

- ymgynghori â nodiadau neu gyhoeddiadau
- rhoi prawf ar symudiadau posibl ar fwrdd gwyddbwyll arall (nac ar gyfrifiadur!)
- trafod y gêm gyda rhywun arall neu gymryd ei gyngor
- tynnu sylw neu ddigio gwrthwynebwr mewn unrhyw ffordd o gwbl.

Y rheolau sydd yn ymwneud â chyffwrdd â darnau

Mae'r rheolau a ddatgenir isod yn ymwneud â gemau o bwys ond er mwyn atal y disgyblion rhag syrthio i arferion drwg mae'n syniad da eu mabwysiadu o'r cychwyn cyntaf. Yn y bôn:

- gall chwaraewr 'unioni' darn gwyddbwyll (trwy ei ddodi yng nghanol ei sgwâr) os eglura ei fwriad ymlaen llaw; ond fel arall:
 - **os cyffwrdd chwaraewr ag un o'i d(d)arnau ei hun, rhaid symud y darn os yw hynny'n bosibl;**
 - **os cyffwrdd chwaraewr ag un o ddarnau ei (g)wrthwynebwr, rhaid iddo/i gipio'r darn os yw hynny'n bosibl.**

Mae manylion pellach ynghylch y rheol hon yn Atodiad 1.

CYSTADLAETHAU ALLANOL

Cyffredinol

Ar ôl i'r clwb gael ei sefydlu, dylid ystyried rhoi cynnig ar gystadlaethau allanol. Mae chwarae gornestau cyfeillgar yn erbyn ysgolion cyfagos yn gam rhagarweiniol sydd o gymorth. Gellir trefnu'r ornestau dros faint bynnag o 'fyrddau' (sef chwaraewyr ym mhob tîm) sy'n gyfleus. Mae hyn yn werthfawr er mwyn cael gwybod pa safon y cyrhaeddwyd gan y disgyblion. Gall y rhai y mae gwir ddawn i'r gêm ganddynt yn gwella'n drawiadol o gyflym.

Wedyn, dylai'r clwb ymuno â chynghrair lleol i ysgolion, os oes un, a gall aelodau hefyd gymryd rhan mewn twrnameintiau i bobl ifainc unigol. Yn ogystal â'r rhai a drefnir gan Undeb Gwyddbwyll Cymru a'u haelodau, gellir ysgolion rhoi cynnig ar y 'UK Chess Challenge', digwyddiad gwych sy'n denu 70,000 o blant bob blwyddyn. Cynhelir y cam cyntaf ym mhob ysgol. Â'r plant sy'n gwneud yn dda yn eu hysgol ymlaen i'r rownd rhanbarthol, sef y 'Megafinal'. Mae manylion cysylltu yn Atodiad 2.

Mae rhai clybiau gwyddbwyll i oedolion yn rhedeg adrannau ar gyfer ieuencid (cysylltwch ag Undeb Gwyddbwyll Cymru i gael manylion

TREFNU GWYDDBWYLL MEWN YSGOLION

pellach). Mae chwarae gwyddbwyll mewn adrannau o'r fath yn arbennig o werthfawr i ddisgyblion cryfach ac i'r rhai sydd yn symud ymlaen, er enghraifft i ysgol uwchradd nad oes clwb gwyddbwyll ganddi.

Gellir chwarae gwyddbwyll y dyddiau hyn ar y rhyngryd – gweler Atodiad 2 – a phrynu cyrsiau gwyddbwyll ar CD a DVD.

Mae'n fuddiol, fel y mae gemau yn cael eu cymryd yn fwyfwy o ddifrif, annog chwaraewyr i gofnodi eu gemau (fesul symudiad) ar daflenni sgorio a dechrau defnyddio clocio gwyddbwyll.

Trefnu ornestau

Cyn gynted ag y dechreuir chwarae gornestau byddwch yn gyfrifol am y trefniadau ar gyfer eich gornestau gartref. Dylech sicrhau bod popeth yn barod cyn yr amser penodedig i gychwyn chwarae.

Amodau chwarae

- Sicrhewch fod digon o le gan pob chwaraewr ar ei ford nid yn unig ar gyfer y bwrdd gwyddbwyll ond hefyd ar gyfer ei daflen sgorio os y'i defnyddir. Dylid gosod bordydd mewn modd sy'n sicrhau y gall chwaraewyr eu gadael yn ddidramgwydd.
- Dylid gosod y byrddau gwyddbwyll yn ddigon pell o'i gilydd i geisio sicrhau nad yw sylw'r chwaraewyr yn cael ei dynnu o'u gêm eu hunain ac i hybu tawelwch.
- Ni ddylai unrhyw sgwrs gan bobl eraill fod yn hyglyw i chwaraewyr sy'n eistedd wrth y bwrdd.
- Ni ddylai chwaraewr fel arfer adael yr ystafell chwarae os ei dro ef, neu'i thro hi, i symud ydyw (er ei bod yn hollol dderbiniol i chwaraewyr adael eu seddau er mwyn edrych ar y gemau eraill).
- Dylai darnau gwyddbwyll o batrwm *Staunton* gael eu defnyddio ar bob bwrdd, yn ddelfrydol o'r un maint ar bob bwrdd.
- Os posib, dylai chwaraewyr sydd wedi gorffen eu gemau gael mynediad i ystafell arall i drafod eu gemau gyda'u gwrthwynebwyr er mwyn beidio â tharfu ar y rhai sy'n dal i chwarae.
- Dylid rhoi chwaraewyr y timau mewn trefn gyda'r chwaraewr gorau ar fwrdd un, yr ail orau ar fwrdd dau ac yn y blaen. Os bydd tîm yn brin o chwaraewyr am ryw reswm, rhaid iddo ildio'r byrddau isaf.
- Mae'n arferol i chwaraewr ysgwyd llaw y gwrthwynebwr ar ddechrau ac ar ddiwedd y gêm.
- Cyn dechrau, dylid cytuno pryd bydd y sesiwn chwarae yn dod i ben a sut i drin gemau sydd heb eu gorffen erbyn hynny.
- Dylai copi o Reolau Gwyddbwyll fod ar gael er mwyn datrus unrhyw anghydfod a all godi a hefyd gopi o reolau'r twrnaint, os bydd y fath beth yn bodoli.

TREFNU GWYDDBWYLL MEWN YSGOLION

Undeb Gwyddbwyll Cymru

Undeb Gwyddbwyll Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sydd yn gyfrifol am hybu gwyddbwyll yng Nghymru; mae'n aelod annibynnol o Ffederasiwn Gwyddbwyll Rhyngwladol. Ymrwma'r Undeb i weithio i hyrwyddo gwyddbwyll mewn ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd, ac ymhlith plant, sydd dan anfanteision cymdeithasol.

Trefna Undeb Gwyddbwyll Cymru amrywiaeth o gystadlaethau i bob oedran a gallu, gan gynnwys amryw gystadlaethau i dimau ac unigolion ar gyfer plant ysgol.

Mae Undeb Gwyddbwyll Cymru hefyd yn trefnu hyfforddiant i'r chwaraewyr ifainc ar y brig ac yn dewis unigolion a thimau i gynrychioli Cymru mewn cystadlaethau rhyngwladol megis Pencampwriaethau'r Byd i Ieuencid.

Cynhyrchir blwyddlyfr (wedi'i ddsbarthu am ddim i aelodau) sy'n cynnwys digwyddiadur cystadlaethau, gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl ifainc, ac adroddiadau ar y cystadlaethau y flwyddyn flaenorol.

Ar gyfer gwybodaeth bellach am Undeb Gwyddbwyll Cymru edrychwch ar ein gwefan (gweler Atodiad 2) neu gysylltu â:

Sarah Kett
Cyfarwyddwr Datblygu
4 Rushbrook Close
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2BN
029 2061 3870
kettsarah@yahoo.co.uk

TREFNU GWYDDBWYLL MEWN YSGOLION

Atodiad 1

Y RHEOLAU

Digwydd unrhyw broblemau sydd yn codi yn ystod gemau gwyddbwyll yn bennaf oherwydd anwybodaeth o reolau'r gêm a luniwyd gan Ffederasiwn Gwyddbwyll y Byd (gweler Atodiad 2 i ddarganfod sut i gael gafael ar gopi). Dylunnir y cwestiynau ac atebion isod ar gyfer y rhai sy'n gymharol anghyfarwydd â'r rheolau hyn.

1. A oes rhaid i chwaraewr ddatgan 'check' wrth ymosod ar frenin y gwrthwynebydd?

Nac oes, nid oes raid datgan check.

2. A ellir cipio'r brenin os gadewir dan warchae (*in check*)?

Na ellir. Rhaid i'r chwaraewr sy'n gadael i'w frenin aros dan warchae dynnu ei symudiad yn ôl a chwarae symudiad cyfreithlon yn ei le, os bosib gyda'r darn y mae wedi cyffwrdd ag ef, (er enghraifft trwy ei roi rhwng darn y gwrthwynebydd a rydd siec a'i frenin ei hun) ond, os na ellir gwneud hynny, gyda darn arall.

3. Pryd y rhwystrir chwaraewr rhag castelli?

Ni ellir castelli o gwbl (i) os symudodd y brenin eisoes neu (ii) â chastell sydd wedi symud eisoes.

*Atelir castelli **dros dro***

- *os yw darnau rhwng y brenin a'r castell, neu*
- *os bydd y brenin, wrth gastelli, yn symud*
 - *allan o warchae (check)*
 - *ar draws sgwâr yr ymosodir arni gan ddarn y gwrthwynebwyr neu*
 - *i sgwâr sydd dan warchae.*

Nid atelir castelli gan fygythiad ar y castell.

4. A all chwaraewr gastelli os cyffwrdd ef â'r castell yn gyntaf?

Na all; ac mae'n rhaid iddo symud ei gastell os bosib.

5. Mae chwaraewr yn cyffwrdd â'i frenin a'i gastell ar yr un pryd ac wedyn yn sylweddoli nad yw castelli yn gyfreithlon – beth sy'n digwydd?

Rhaid i'r chwaraewr symud ei frenin. Os nad oes symudiadau ar gael gan y brenin sy'n gyfreithlon, gall y chwaraewr wneud unrhyw symudiad.

6. A all chwaraewr symud darn i un sgwâr, newid meddwl cyn gollwng gafael arno a'i symud i sgwâr arall?

Gall.

7. Beth sy'n digwydd os na ellir symud darn y cyffyrddwyd ag ef?

Gall y chwaraewr symud unrhyw ddarn arall.

8. Os na all chwaraewr wneud symudiad cyfreithlon, a ydy ef yn colli?

Os yw'r brenin dan warchae, ydy; mae'n colli. Fel arall, methmat yw hi (stalemate), sef gêm gyfartal.

TREFNU GWYDDBWYLL MEWN YSGOLION

9. Yn ystod gêm ceir gwybod i symudiad anghyfreithlon gael ei chwarae ynghynt yn y gêm. Beth y dylid ei wneud?

Os y trydydd symudiad anghyfreithlon gan y chwaraewr ydyw, cyll ef/hi y gêm. Fel arall, dylid ailsefydlu'r darnau lle yr oeddynt yn union cyn y symudiad anghyfreithlon; rhaid i'r chwaraewr symud y darn y gafaelodd ynddo a gwneud symudiad cyfreithlon gydag ef y tro 'ma os bosib; os na, caniateir iddo/iddi symud darn arall. Os na ellir ailosod y safle hwn, â'r gêm ymlaen o'r safle diweddaraf a ellir ei ailosod cyn y symudiad anghyfreithlon.

10. Os dadleola'r darnau trwy ddamwain, a ddylid ailgychwyn y gêm?

Dylid ailsefydlu'r safle yn union cyn y ddamwain. Os na ellir wneud hynny â'r gêm ymlaen o'r safle diweddaraf a ellir ei ailsefydlu cyn y ddamwain.

11. Os oedd safle'r darnau ar ddechrau'r gêm yn anghywir, a ddylai'r gêm parhau?

Na; rhaid ailchwarae'r gêm.

12. Os dechreu'r gêm a cheir gwybod wedyn fod y bwrdd o chwith (hynny ydy bod sgwâr du ar gornel dde'r ddau chwaraewr), er bod trefn y darnau yn iawn, a ddylid ailchwarae'r gêm?

Na ddylid. Rhaid trosglwyddo'r darnau i fwrdd wedi'i leoli'n gywir a pharhau'r gêm.

13. A all chwaraewr dynnu'n ôl ei gynnig o gytuno ar gêm gyfartal?

Na all. Ni ddylai chwaraewr gynnig gêm gyfartal ond yn syth ar ôl gwneud symudiad. Os y'i cynigir cyn gwneud symudiad, gall y gwrthwynebwr fynnu y gwneir symudiad cyn penderfynu cytuno neu beidio. Un ffordd neu'r llall, ni ellir tynnu'r cynnig yn ôl. Gall y gwrthwynebwr dderbyn neu wrthod y cynnig naill ai ar lafar neu drwy wneud symudiad.

TREFNU GWYDDDBWYLL MEWN YSGOLION

Atodiad 2: cysylltiadau defnyddiol a ffynonellau gwybodaeth

Undeb Gwyddbwyll Cymru

1) Gwefan: www.welshchessunion.org.uk

2) Cysylltiadau:

- Sarah Kett, Cyfarwyddwr Datblygu, Undeb Gwyddbwyll Cymru, kettsarah@yahoo.co.uk, (029 2061 3870)
- Ian Eustis (Cyfarwyddwr Gwyddbwyll i Bobl Ifainc, Undeb Gwyddbwyll Cymru): ianrhos@hotmail.com (01792 862115)
- Kevin Staveley (Pwyllgor Pobl Ifainc, Undeb Gwyddbwyll Cymru) kevin.staveley@btinternet.com (01443 772750)
- Howard Williams (i archebu copïau caled o'r llyfryn hwn neu'r gryno-ddisg a grybwyllir ar dudalen 5) howard.swynant@btinternet.com (01239 682182)

Cyflenwyr sy'n arbenigo mewn offer gwyddbwyll

- Chess Suppliers Scotland, 15 Hope Street, Glasgow G2 6AQ (Ffôn/Ffacs 0141 248 2887) www.chess-suppliers.co.uk
- BCM Chess Shop, 44 Baker Street, Llundain, W1U 2RT (Ffôn/Ffacs 020 7486 8222/3355) www.bcmchess.co.uk
- Chess Direct Ltd, PO Box 18, Mexborough, South Yorkshire, S64 9AR (Ffôn/Ffacs 01709 890565/874076) www.chessdirect.co.uk

UK Chess Challenge (gweler tudalen 7)

www.ukchesschallenge.com

Rheolau Gwyddbwyll

Gellir eu dadlwytho oddi ar wefan Ffederasiwn Gwyddbwyll y Byd: www.fide.com/official/handbook.asp (gweler adran E1 ar y Rheolau)

Hyfforddiant Gwyddbwyll

www.ChessKids.com (sy'n cynnwys cwrs gwyddbwyll ar-lein i blant yn rhad ac am ddim)

Chwarae Gwyddbwyll ar y Rhynggrwyd

- www.chessclub.com (safle Clwb Gwyddbwyll y Rhynggrwyd))
- www.gwyddbwyll.com (safle Cymraeg)

TREFNU GWYDDBWYLL MEWN YSGOLION

Atodiad 3

Enghreifftiau o ffurflenni sylfaenol er mwyn rhedeg twrnamaint o dan y System Swistrol (gweler tudalen 6)

Cerdyn Paru

Rhif:			
Enw:			
Rd	Gwrthwy -nebwr	Canlyn -iadau	Cyfans -wm
1			
2			
3			
4			
5			

Darn o Siart Wal y ceir ei llenwi fesul rownd

No	Name	Rd1		Rd2		Rd3		Rd4		Rd5		Total
1	M Llwyd	+5	1	+4	2	+8	3	-2	3	+9	4	4
2	E Wynne	=15	½	+10	1½	+6	2½	+1	3½	+8	4½	4½
3	G Owen	-4	0	-9	0	+23	1	+10	2	=6	2½	2½
4	L Morris	+3	1	-1	1	+14	2	+9	3	-11	3	3
5	I Morgannwg	-1	0	+1	1	=13	1½	-15	1½	-17	1½	1½

Ar gyfer pob rownd arddengys y golofn gyntaf wrthwynebwr y chwaraewr a'r canlyniad ac arddengys yr ail golofn ei sgôr gynyddol.